| Cyfenw<br>*Surname* | Rhif y Ganolfan<br>*Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd<br>*Candidate Number* |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf<br>*First name(s)* | | 0 |

cbac wjec

**TGAU**

3020U30-1

Z22-3020U30-1

**DYDD MAWRTH, 17 MAI 2022 – PRYNHAWN**
***TUESDAY, 17 MAY 2022 – AFTERNOON***

# CYMRAEG AIL IAITH – Uned 3
# *WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 3*

## ADRODDIADOL, PENODOL A CHYFARWYDDIADOL

1 awr 30 munud
*1 hour 30 minutes*

| Adran | Cwestiwn | Marc Uchaf | Marc yr Arholwr |
|---|---|---|---|
| A | 1. | 3 | |
| | 2. | 6 | |
| | 3. | 8 | |
| | 4. | 10 | |
| | 5. | 12 | |
| | 6. | 10 | |
| | 7. | 6 | |
| B | 8. | 15 | |
| | 9. | 10 | |
| C | 10. | 20 | |
| Cyfanswm | | | |

3020U301
01

**CYFARWYDDIADAU**
***INSTRUCTIONS***

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.
*Use black ink or black ball-point pen. Do not use gel pen or correction fluid.*

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*

Atebwch **bob** cwestiwn **yn Gymraeg** yn y lleoedd gwag priodol.
*Answer **all** questions **in Welsh** in the spaces provided.*

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y tudalennau ychwanegol yng nghefn y llyfryn. Rhaid rhoi rhif y cwestiwn ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei ysgrifennu ar y tudalennau ychwanegol.
*If you run out of space, use the additional pages at the back of the booklet. Question numbers must be given for all work written on the additional pages.*

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill.**
***The use of dictionaries or any other resources is forbidden.***

**GWYBODAETH**
***INFORMATION***

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

Mae'r marciau ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau yn cael eu nodi fel a ganlyn: [✓ = 2] ac ati.
*Marks awarded for accuracy of expression within the questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.*

JUN223020U30101

ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. VP*(S20-3020U30-1)

Arholwr yn unig
*Examiner only*

## Adran A

**A1.** Mae'r cyngor eisiau rhoi 3 hysbyseb syml ar eu gwefan, ond mae'r lluniau ar goll. Rhaid i chi ddewis y 3 llun addas. Ticiwch (✓) y **3** llun.
*The council want to put 3 simple adverts on their website, but the pictures are missing. You must choose the 3 suitable pictures. Tick (✓) the **3** pictures.* **[3]**

| **CIG CWM GWAUN** | **CACENNAU CALON LÂN** | **CREISION JONES O GYMRU** |
|---|---|---|
| | | |
| Rydyn ni'n gwerthu cig o bob math – cig moch, cig oen, cig eidion … | Rydyn ni'n gwerthu cacennau o bob math yn cynnwys pice ar y maen a bisgedi. | Rydyn ni wedi bod yn gwerthu creision o bob math ers 2011. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| | | | | |



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U30-1)

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**A2.** Mae eisiau creu cronfa ddata yn cynnwys gwybodaeth am sawl busnes. Rhaid i chi nodi'r wybodaeth am y cwmni yn y grid isod i'r cyngor.
*You need a database including the information about many businesses. You must note the information about the business in the grid below for the council.* **[6]**

**SIOCLEDI CATHRYN CARIAD**



Mae cwmni Siocledi Cathryn Cariad yn ardal Eryri, Gogledd Cymru.

Mae'r siocledi yn boblogaidd, yn enwedig y blasau gwahanol fel mintys, mafon, oren, sinsir, coffi, cnau coco a leim.

Hefyd mae'r siocledi mewn sawl siâp fel draig, castell, dafad, mochyn neu esgid.

Cliciwch ar www.cathryncariad.com heddiw neu ffoniwch 01766 702796 am fwy o wybodaeth.

| | | |
|---|---|---|
| ENW'R CWMNI SIOCLED | | [1] |
| RHIF FFÔN Y CWMNI | | [1] |
| GWEFAN Y CWMNI | | [1] |
| LLEOLIAD Y CWMNI | | [1] |
| BLASAU GWAHANOL Y CWMNI SIOCLED | 1.<br>2. | [2] |

3020U301
03



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U30-1)

**Trowch y dudalen.**
***Turn over.***

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**A3.** Mae'r cyngor wedi derbyn taflen wybodaeth am gwmni Llaeth y Llan. Mae aelod o'r staff eisiau ysgrifennu crynodeb i'r wefan. Fodd bynnag, dydy hi ddim yn siŵr am ambell ffaith. Rhaid i chi danlinellu'r ffeithiau cywir i'w helpu.
*The council has received an information sheet about the company Llaeth y Llan. A member of staff is writing a summary for the website. However, she is not sure about some facts. You must underline the correct facts to help her.* **[8]**

**CWMNI LLAETH Y LLAN**

**www.llaethyllan.co.uk**

**Cwmni Gareth Roberts a'i deulu.**

**Cwmni teuluol o ardal Llannefydd, Gogledd Cymru.**

**Dydy'r cwmni ddim yn fawr, mae llai na 50 o staff yma.**

**Cwmni sy'n cynhyrchu iogwrt (14 blas gwahanol).**

**Dechreuodd y teulu gynhyrchu iogwrt mewn hen sied yn 1985.**

**Adeiladodd y cwmni laethdy newydd yn 1995.**

**Erbyn heddiw maen nhw'n gwerthu iogwrt blasus ar draws Prydain.**




| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| i. | Mae cwmni Llaeth y Llan … | yn y De | yn y Gogledd | yn y Canolbarth | |
| ii. | Sawl person sy'n gweithio yno? | 1–49 | 50–99 | 100–150 | |
| iii. | Sawl blas iogwrt sydd gyda nhw? | llai na 12 blas | mwy na 12 blas | | |
| iv. | Gareth ddechreuodd y cwmni gyda … | ei ffrindiau | ei athrawon | ei deulu | |
| v. | Beth ydy maint y cwmni? | bach | mawr | enfawr | |
| vi. | Adeilad y cwmni nawr? | siop | llaethdy | sied | |
| vii. | Gwerthu iogwrt yn …<br>(Tanlinellwch 2 ateb) | Lloegr | Ffrainc | Cymru | Yr Almaen |



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**A4.** Mae ymchwil yn dangos poblogrwydd bwydydd Cymru gyda thwristiaid. Edrychwch ar ganlyniadau'r ymchwil. Rhif 1 yw'r mwyaf poblogaidd a rhif 6 yw'r lleiaf poblogaidd. Yna cwblhewch y tabl ac atebwch y cwestiynau isod.
*Research shows the popularity of Welsh foods with tourists. Look at the results. Number 1 is the most popular and number 6 is the least popular. Then complete the table and answer the questions below.* **[10]**

| | CANLYNIADAU 2017 | CANLYNIADAU 2018 | CANLYNIADAU 2019 |
|---|---|---|---|
| 1 | CAWS CAERFFILI | CIG OEN | CIG OEN |
| 2 | CIG OEN | BARA BRITH | BARA BRITH |
| 3 | CAWS CENARTH | SELSIG MORGANNWG | CAWL |
| 4 | BARA BRITH | PICE AR Y MAEN/ CACENNI CRI | SELSIG MORGANNWG |
| 5 | COCOS | CAWL | CAWS CAERFFILI |
| 6 | CAWL | CAWS CAERFFILI | PICE AR Y MAEN/ CACENNI CRI |







3020U301
05

| | CYWIR | ANGHYWIR | |
|---|---|---|---|
| Mae cig oen yn boblogaidd bob blwyddyn. | | | [2] |
| Roedd mwy o bobl yn hoffi caws yn 2017 na 2018 a 2019. | | | [2] |
| Mae pice ar y maen/cacenni cri ar y rhestr bob blwyddyn. | | | [2] |
| Mae mwy a mwy o bobl yn hoffi cawl bob blwyddyn. | | | [2] |

Beth wyt ti'n hoffi ar restr 2019? ............................................................ [1]

Pam? ............................................................

............................................................ [1]


© WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U30-1)

**Trowch y dudalen.**
***Turn over.***

**A5.** Mae ffeithiau am gwmni dŵr Tŷ Nant isod. Darllenwch y wybodaeth yn ofalus.
*There are facts about the Tŷ Nant water company below. Read the information carefully.* **[12]**

**CWMNI DŴR TŶ NANT**



Y cwmni dŵr gyda'r poteli glas. Y cwmni dŵr sy'n enwog ar draws y byd. Yn wir, mae 60% o'r poteli dŵr yn cael eu hallforio dros y môr.

Mae'r cwmni yn cefnogi elusen canser bob blwyddyn.

Maen nhw'n cynhyrchu Poteli Pinc – gyda chanran (%) o'r arian yn mynd at elusen canser.

Mae pawb yn yfed dŵr Tŷ Nant mewn digwyddiadau pwysig fel Pencampwriaeth Tennis Stella Artois, Cwpan Hwylio Louis Vuitton, Wythnos Ffasiwn Llundain a Gŵyl Cannes. Hefyd rydyn ni'n gweld pobl yn yfed dŵr Tŷ Nant ar raglenni teledu fel *Eastenders*, *Friends* a *Hollyoaks* ac ar ffilmiau fel *Paddington* ac *Iron Man 2*.


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(i) Rydych chi wedi derbyn 2 neges e-bost yn gofyn cwestiynau am y cwmni. Rhaid i chi ateb y negeseuon ar ran y cwmni yn llawn.
*You have received 2 e-mail messages asking questions about the company. You must answer the messages fully on behalf of the company.* [6]

| | |
|---|---|
| E-BOST<br>AT: swyddfa@tynant.co.uk<br>ODDI WRTH: owain545@gmail.com<br><br>NEGES<br>Rydyn ni'n mwynhau yfed dŵr Tŷ Nant ond mae cwestiwn gyda fi. Ydy'r cwmni yn helpu elusennau?<br>Diolch.<br>Owain Williams | E-BOST<br>AT: owain545@gmail.com<br>ODDI WRTH: swyddfa@tynant.co.uk<br><br>NEGES<br>..........<br>..........<br>..........<br>..........<br>..........<br>.......... |

| | |
|---|---|
| E-BOST<br>AT: swyddfa@tynant.co.uk<br>ODDI WRTH: e.harri@tiscali.co.uk<br><br>NEGES<br>Mae fy ffrind yn dweud ei bod hi wedi gweld pobl yn yfed dŵr mewn ffilmiau. Ydy hyn yn wir? Ydy actorion yn yfed dŵr Tŷ Nant mewn ffilmiau neu ar y teledu?<br>Ella Harri (16 oed) | E-BOST<br>AT: e.harri@tiscali.co.uk<br>ODDI WRTH: swyddfa@tynant.co.uk<br><br>NEGES<br>..........<br>..........<br>..........<br>..........<br>..........<br>.......... |

3020U301
07



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U30-1)

**Trowch y dudalen.**
***Turn over.***

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(ii) Mae 4 person ifanc wedi sôn am yfed dŵr. Darllenwch eu sylwadau. Wedyn, cymerwch y 3 rheswm gorau, yn eich barn chi, er mwyn creu poster isod ar gyfer y ganolfan hamdden. Meddyliwch yn ofalus am eich dewis a chofiwch fod rhai wedi rhoi mwy nag un rheswm.
*4 young people have mentioned drinking water. Read their comments. Then, take the three best reasons given, in your opinion, to create a poster below for the leisure centre. Think carefully about your choice and remember some have given more than one reason.* [6]

Mae yfed dŵr yn helpu fi i gadw'n iach. Mae'n bwysig iawn yn fy marn i.

(Sara)

A bod yn onest dw i ddim yn hoffi te a choffi. Felly dw i'n yfed dŵr bob dydd.

(Jeff)

Mae yfed dŵr yn well nag yfed caniau llawn siwgr. Dw i'n teimlo'n iach. Hefyd mae yfed dŵr yn helpu pan dw i'n ymarfer yn y gampfa.

(Ben)

Mae ystadegau yn dangos bod yfed dŵr yn dda i'r corff. Mae'n syniad da os ydy person eisiau colli pwysau hefyd. Dw i ddim yn dew. Felly, does dim problem gyda fi. Dw i'n hapus iawn.

(Mabli)

| | |
|---|---|
| **DŴR**  | |



© WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U30-1)

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**A6.** Mae eisiau anfon y neges isod i'r staff i gyd. Fodd bynnag, mae 10 camgymeriad yn y neges. Rhaid i chi gywiro'r camgymeriadau. Nodwch y cywiriadau yn y grid ar waelod y dudalen.

Mae'r camgymeriadau yn cynnwys:
- gwallau sillafu
- gwallau atalnodi
- gwallau gramadeg

Mae'r camgymeriadau mewn bold ac wedi'u tanlinellu.

*The message below needs to be sent to all staff. However, there are 10 mistakes in the message. You must correct the mistakes. Note the corrections in the grid at the bottom of the page.*

*The mistakes include:*
- *spelling mistakes*
- *punctuation mistakes*
- *grammar mistakes*

*The mistakes are in bold and have been underlined.* **[10]**

Neges <u>**pwysig**</u> i'r staff

Yn gyntaf, <u>**mae**</u> ni'n newid bwydlen y caffi <u>**yn**</u> mis Mehefin. <u>**Bydd**</u> dim sglodion. Bydd bwydlen iachus yn cynnwys bar salad bob dydd.

Wedyn bydd dosbarth ffitrwydd bob bore dydd <u>**Merched**</u> am wyth <u>**o gloch**</u>. Croeso i <u>**pawb**</u>.

<u>**yn**</u> olaf bydd poteli dŵr a ffrwythau yn y lolfa yn ystod y dydd.

Os <u>**ydy**</u> syniadau eraill gyda chi, <u>**e-bostio**</u> Nia neu Mike.
Diolch.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

3020U301
09



© WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U30-1)

**Trowch y dudalen.**
***Turn over.***

**A7.** Penderfynodd y llywodraeth ddechrau clybiau 5x60 sawl blwyddyn nôl. Y nod yw annog pobl ifanc i gadw'n heini. Darllenwch amdanynt.
*The government began 5x60 clubs a number of years ago. The aim is to encourage young people to keep fit. Read about them.* **[6]**

**CLYBIAU 5X60 CYMRU**



Targed Llywodraeth Cymru yw bod pob person ifanc yn gwneud chwaraeon am awr pump gwaith yr wythnos – un awr am bump diwrnod. Mae cadw'n heini yn bwysig iawn heddiw. Felly, mae'r llywodraeth eisiau helpu pobl ifanc i fyw yn iach.

Maen nhw'n gallu dewis chwaraeon poblogaidd fel pêl-droed, rygbi, criced, pêl-rwyd neu nofio. Hefyd gallen nhw ddewis chwaraeon newydd fel carate, dawnsio stryd, beicio mynydd neu syrffio. Bydd y chwaraeon yn heriol ac yn gyffrous. Wrth gwrs, byddan nhw'n helpu i gadw pobl ifanc yn iach.

Mae'r clybiau 5x60 yn costio dros 4 miliwn i'r llywodraeth ond maen nhw'n bwysig iawn. Maen nhw'n siarad gyda'r plant ac yn gwrando ar eu syniadau. Hefyd maen nhw'n siarad gyda rhieni, ysgolion a'r clybiau lleol.

Clybiau 5x60 = Targed anhygoel Llywodraeth Cymru
Targed realistig! Targed pwysig! Targed gwych!

Clybiau 5x60! Beth yw'r pwynt?
Mae'r llywodraeth yn gwastraffu arian.
Gwastraff arian a gwastraff amser.
(Jonathan Price, 44 oed)




ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(i) Dydy Mr Jonathan Price ddim yn cytuno gyda'r clybiau 5x60. Atebwch Mr Price ar ran y clybiau.

Bydd eisiau:

- cyfarchiad
- gwybodaeth am y clybiau 5x60
- clo addas

*Mr Jonathan Price doesn't agree with the 5x60 clubs. Answer Mr Price on behalf of the clubs.*

*You will need:*

- *a greeting*
- *information about the 5x60 clubs*
- *an appropriate ending*

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................

................................................................................................................................................................................................................



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**Adran B**

**B8.** Rydych chi'n gweithio yn Noddfa Mwncïod Cymru. Rydych chi wedi derbyn adborth ymwelwyr.
*You work in the Wales Monkey Sanctuary. You have received visitors' feedback.* **[15]**

**NODDFA MWNCÏOD CYMRU**
**Elusen Rhif 50458**
**Caehopkin, Abercraf, Abertawe, SA9 1UD**
**01639 730276 www.noddfamwncïod.org.uk**




Ar agor bob dydd o'r flwyddyn (heblaw am ddydd Nadolig)
10.30 – 5.00 bob dydd
Tocyn oedolyn: £8.50 Tocyn Plentyn: £5 Tocyn Teulu: £25

Lle perffaith i'r teulu cyfan. Dyma'r lle i ddysgu mwy am anifeiliaid o bob math.
Mae'r noddfa yn gofalu am y mwncïod ond hefyd mae anifeiliaid eraill yno fel ceffylau, asynnod, moch a sawl ci a chath.
Mae'r cyfleusterau yn cynnwys taith gerdded o gwmpas y noddfa, siop, caffi, maes parcio mawr a sawl lle picnic.

Sut gallech chi helpu?
- Helpu bob dydd neu ar y penwythnos
- Helpu talu am fwyd
- Prynu o'r siop ar eBay
- Helpu yn y noddfa am ddiwrnod – helpu glanhau a bwydo'r anifeiliaid

(i) Sut gallai'r bobl yma helpu'r noddfa?
*How could these people help the sanctuary?* [3]

| | Sut gallai'r bobl yma helpu? |
|---|---|
| Jenny, 17 oed. Hoffi anifeiliaid. Yn astudio Lefel A yn yr ysgol. | |
| Alys Griffiths, 65 oed. Dim yn gadael y tŷ ond eisiau helpu. | |
| Mr a Mrs Collins a'r plant (5, 8 a 10 oed). Hoffi mynd am dro fel teulu bob dydd Sadwrn. | |


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(ii) ADBORTH TRIPADVISOR

| | |
|---|---|
| ★★★★★ (5/5) | *Roedd y plant yn hapus iawn yma. Roedden nhw'n mwynhau darllen am hanes y mwncïod a dysgu am eu bywydau. (Tessa James, Caerdydd)* |
| ★★★★☆ (4/5) | *Roedd y mwncïod yn edrych yn hapus. Mae'n ddrud ond mae'r arian yn mynd at yr anifeiliaid. Felly doedd dim problem. (Steve Bowen, Tyddewi)* |
| ★★★★☆ (4/5) | *Staff cyfeillgar, maes parcio cyfleus a digon i weld. Doedd dim dewis bwyd yn y caffi ond roedd y brechdanau yn flasus. (Ella Collins, Aberaeron)* |

(a) Mae'r rheolwr eisiau gwybod mwy am yr adborth ar TripAdvisor. Rhaid i chi nodi **3** phwynt pwysig i rannu isod gyda fe. Rhaid cynnwys o leiaf un pwynt positif ac un pwynt negyddol. (Peidiwch â chopïo geiriau person yn gyfangwbl.)
*The manager wants to know more about the feedback on TripAdvisor. You must note **3** important points for him below. You must include at least one positive point and one negative point. (Don't just copy down one person's words completely.)* [3]

| | |
|---|---|
| Pwynt 1 | |
| Pwynt 2 | |
| Pwynt 3 | |

(b) Roedd un person yn anhapus iawn gyda'r noddfa. Mae'r rheolwr wedi ateb Mr Jenkins, ond ydych chi'n cytuno gyda'r rheolwr? Rhowch reswm dros eich ateb.
*One person was unhappy with the sanctuary. The manager has answered Mr Jenkins but do you agree with the manager? Give a reason for your answer.*

ADBORTH TRIPADVISOR

| | |
|---|---|
| ★★☆☆☆ (2/5) | *Roedd y lle yn ddrud a doedd dim parc chwarae i'r plant. Siomedig! (Alan Jenkins, Conwy)* |
| Ateb y rheolwr | *Annwyl Mr Alan Jenkins,<br>Dydyn ni ddim eisiau parc chwarae i'r plant. Rydyn ni'n gwario'r arian i gyd ar yr anifeiliaid. Felly does dim arian gyda ni i adeiladu parc chwarae. Hefyd bydd yr insiwrans yn ddrud. Noddfa ydyn ni, nid sŵ.* |

Ydych chi'n cytuno gydag ateb y rheolwr? .............................................................. [1]

Pam? ..............................................................

..............................................................

..............................................................

..............................................................

..............................................................

.............................................................. [4]


© WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.


**Trowch y dudalen.**
***Turn over.***

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(iii) Mae 3 noddwr pwysig gyda'r noddfa. Meddyliwch am **2** gwestiwn hoffech chi ofyn i un ohonynt am eu gwaith gyda'r noddfa.
*The sanctuary has 3 important sponsors. Think of* **2** *questions you would like to ask one of them about their work with the sanctuary.* [4]

| **Graham Norton** | **James Corden** | **Sheridan Smith** |
|---|---|---|
|  |  |  |
| Mae Graham Norton yn dod o Iwerddon ond mae e'n byw yn Llundain nawr. Mae sioe radio gyda fe ond mae e'n gweithio ar y teledu yn aml hefyd. | Actor ydy James Corden. Roedd e'n enwog am ei ran yn *Gavin & Stacey* ond fe hefyd oedd llais Peter Rabbit yn y ffilm ddiwethaf. | Roedd Sheridan yn actio yn *Gavin & Stacey* hefyd. Cafodd ei geni yn Lloegr ond mae hi'n hoff iawn o Gymru. |

Cwestiwn 1:

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

Cwestiwn 2:

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U30-1)

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**B9.** Mae noddfa anifeiliaid yn eich ardal yn chwilio am wirfoddolwyr. Rhaid i chi gyfieithu'r hysbyseb i'r Gymraeg i reolwr y noddfa.
*An animal sanctuary in your area is looking for volunteers. You must translate the advertisement into Welsh for the manager of the sanctuary.* **[10]**

Would you like to help?

We need young people to help every weekend,

especially Sunday morning.

Contact Hywel in the office.

(Hywel's phone number: 07728394448)

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

**Adran C**

**C10.** Ysgrifennwch ar **un** o'r canlynol. [10 + ✓ = 10] = **[20]**
*Write on **one** of the following.*

**Naill ai:**

Rydych chi eisiau rhoi Cymru ar y map. Felly, rydych chi'n ysgrifennu erthygl fer ar gyfer cylchgrawn yn cyflwyno Cymru – y wlad a'i photensial. (Tua 150 gair)

Rhaid i chi gynnwys:
- eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu
- cyflwyniad i Gymru
- y pethau da am Gymru e.e. y cynnyrch, yr hanes a'r iaith, yr atyniadau
- dyfodol Cymru
- diwedd priodol

*Either:*

*You want to put Wales on the map. Therefore, you are writing a short article for a magazine presenting Wales – the country and its potential. (About 150 words)*

*You must include:*
- *your name and your reason for writing*
- *an introduction to Wales*
- *the good things about Wales e.g. the products, the history and the language, the attractions*
- *the future of Wales*
- *an appropriate ending*

**Neu:**

Mae sawl cyfle i wneud gwaith gwirfoddol yn eich ardal. Rhaid i chi ysgrifennu llythyr cais yn esbonio pa fath o waith hoffech chi gael a pham rydych chi eisiau helpu eraill. (Tua 150 gair)

Rhaid i chi gynnwys:
- eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu
- gwybodaeth am y gwaith hoffech chi wneud
- manylion eich cymwysterau / sgiliau e.e. TGAU, tystysgrifau, cyrsiau
- eich rhesymau dros helpu eraill
- diwedd priodol

*Or:*

*There are many opportunities for voluntary work in your area. You are writing a letter of application explaining what type of work you would like and why you want to help others. (About 150 words)*

*You must include:*
- *your name and your reason for writing*
- *information about the work you would like to do*
- *details of your qualifications / skills e.g. GCSEs, certificates, courses*
- *your reasons for helping others*
- *an appropriate ending*


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**DIWEDD Y PAPUR**
***END OF PAPER***


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig
*Examiner only*



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.



**Trowch y dudalen.**
***Turn over.***

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig *Examiner only*



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.